CLUDIANT AC ADDYSG GYMRAEG 16+

Arolwg o effaith codi tâl am gludiant i addysg Gymraeg 16+ ym Mhen-y-bont ar Ogwr

RhAG

Rhieni dros Addysg Gymraeg

Ionawr 2014

CYNNWYS

CANFYDDIADAU 3

CASGLIADAU 3

1. **Cefndir** 4
2. **Daearyddiaeth** 6
3. **Dull yr arolwg** 7
4. **Ymatebion** 7
5. **Man byw a dull cyrraedd yr ysgol** 7
6. **Pellter o'r ysgol** 8
7. **Amser teithio i'r ysgol** 8
8. **Am gael addysg Gymraeg 16+** 10
9. **Cyrraedd yr ysgol heb fws ysgol** 10
10. **Amser cyrraedd yr ysgol ar gludiant cyhoeddus** 11
11. **Parodrwydd i dalu** 12
12. **Dymuniad i gael addysg Gymraeg 16+ a thalu am fws ysgol** 12
13. **Sefydliadau addysg Saesneg 16+ a sefydliadau eraill** 13
14. **Sylwadau rhieni ac amddifadedd cymdeithasol** 14

GRAFFIAU

Graff 1	**Pellter disgyblion o'r ysgol**	**8**
Graff 2	**Amser teithio i'r ysgol**	**9**
Graff 3	**Dulliau cyrraedd yr ysgol**	**9**
Graff 4	**Dymuniad i gael addysg 16+ yn Llangynwyd**	**10**
Graff 5	**Hwylustod cyrraedd yr ysgol heb fws ysgol**	**11**
Graff 6	**Amser teithio i'r ysgol gyda chludiant cyhoeddus**	**11**
Graff 7	**Parodrwydd i dalu am gludiant i addysg 16+**	**12**
Graff 8	**Dymuniad i barhau ag addysg Gymraeg 16+ a thalu am fws ysgol**	**13**

ATODIAD A Sylwadau Rhieni 14

Canfyddiadau

1. Mae dymuniad cryf iawn gan ddisgyblion Llangynwyd i barhau eu haddysg Gymraeg yno yn 16+ oed.
2. Mae ymateb y rhieni i dalu am gludiant yn golygu na fydd addysg 16+ yn hyfyw yn Ysgol Gyfun Gymraeg Llangynwyd. Dim ond 27% fyddai'n dod yn bendant, a 12% arall yn dod yn ôl pob tebyg.
3. Mae darpariaeth cludiant effeithiol yn allweddol i sicrhau cydraddoldeb i addysg Gymraeg, gan fod y ddarpariaeth mor bell o gartrefi'r rhan fwyaf sy'n manteisio arni. Nid oes cydraddoldeb os yw'r ganran sy'n talu am gludiant i dderbyn addysg Gymraeg yn llawer mwy na'r ganran a fyddai'n talu hyn i fynychu addysg 16+ Saesneg.
4. Mae pryder cyffredinol gan rieni y bydd addysg eu plant yn dioddef.
5. Mae rhieni'n poeni am eu sefyllfa ariannol a fydd yn peri na fyddant yn gallu fforddio'r bws ysgol.
6. Yn wahanol iawn i Goleg Pen-y-bont, ac i ysgolion y Sir yn gyffredinol, mae rhyw 78% o ddisgyblion Ysgol Gyfun Gymraeg Llangynwyd yn byw ymhellach na 3 milltir o'r ysgol.
7. Eto'n wahanol iawn i'r sefydliadau addysg eraill ym Mhen-y-bont ar Ogwr, mae bron 94% o ddisgyblion Llangynwyd yn dibynnu ar fws i ddod i'r ysgol.
8. Yn wahanol i Goleg Pen-y-bont, nid oes gwasanaeth bysiau cyhoeddus hwylus i Ysgol Gyfun Gymraeg Llangynwyd, felly mae'r mwyafrif helaeth o'r disgyblion yn dibynnu ar fysiau ysgol a ddarperir gan y Sir.

CASGLIADAU

1. Bydd codi tâl am gludo disgyblion 16+ plant i Ysgol Gyfun Gymraeg Llangynwyd yn debygol o ddod ag addysg 16+ hyfyw yno i ben.
2. Bydd codi tâl am gludiant yn effeithio'n anghymesur ac afresymol ar rai sy'n derbyn addysg Gymraeg ôl 16 yn y Sir. Bydd hyn yn effeithio ar 8 o bob 10 o ddisgyblion Ysgol Gyfun Gymraeg Llangynwyd.
3. Mae codi tâl am gludiant ysgol yn mynd i gosbi'r llai cefnog yn fwy na neb, a pheri na fydd disgyblion o gefndiroedd tlotach yn gallu parhau ag addysg Gymraeg.
4. Gan fod addysg Saesneg 16+ yn o fewn cyrraedd llawer haws i'r rhan fwyaf o'r disgyblion, mae codi tâl i gael mynediad at addysg Gymraeg yn gosod addysg Gymraeg o dan anfantais amlwg.
5. **Nid yw Cyngor Pen-y-bont ar Ogwr wedi ymchwilio i effaith codi tâl am gludiant ysgol ar addysg Gymraeg 16+, ar addysg 16+ yn gyffredinol nac ar deuluoedd llai cefnog. Byddai'r newidiadau hyn yn cael effaith andwyol ar ddewisiadau rhieni yn y sector meithrin a'r cynradd. A oes Asesiad Effaith Cydraddoleb wedi'i gynnal yn y cyswllt hwn? Mae'n glir o sylwadau'r rhieni pe na byddai cludiant 16+ am ddim ni fyddent wedi dewis addysg Gymraeg**

yn y lle cyntaf. YR EFFAITH TYMOR HIR AR NIFEROEDD ADDYSG GYMRAEG YN Y SIR YW'R PRYDER MWYAF O SAFBWYNT Y CYNIGION HYN.

6. Mae'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg (SACC) yn gosod cydraddoldeb yn un o'i elfennau canolog:

> "Mae cyfle cyfartal yn thema drawsbynciol sy'n rhan annatod o'r Strategaeth hon a phob polisi Llywodraeth Cynulliad Cymru.[…] Dylai addysg cyfrwng Cymraeg adlewyrchu cyfansoddiad adlewyrchu cyfansoddiad poblogaeth Cymru yn gyffredinol, a dylai fod ar gael i bob cymuned, gan gynnwys y rhai o dan anfantais a llawn amrywiaeth ethnig, a dylent fanteisio arni."[1]

7. Mae Adran 10 Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i drefnu cludiant i ysgolion gyda'r nod o 'hybu addysg Gymraeg.' Byddai'r cynnig a drafodir yn awr yn cael effaith i'r gwrthwyneb, ac yn andwyol iawn i addysg Gymraeg.

8. Mae'r SACC yn ategu hyn, gan nodi y dylai ALl 'hyrwyddo'r cyfle i fanteisio ar ddarpariaeth gynradd ac uwchradd statudol cyfrwng Cymraeg, a sefydliadau sy'n darparu addysg bellach ac addysg feithrin, wrth arfer swyddogaethau o dan Fesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008.[2]

9. Ymhellach i hynny, pwysleisir fod dilyniant ieithyddol yn un o gonglfeini'r SACC, ble nodir fod 'gwella dilyniant ieithyddol yn flaenoriaeth genedlaethol, yn rhanbarthol ac mewn awdurdodau lleol ym mhob cyfnod addysg a hyfforddiant.'[3]

10. Yn wir byddai gweithredu'r polisi hwn yn cwestiynu gallu'r awdurdod i gyflawni gofynion statudol y Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009[4], trwy danseilio hyfywedd y 6ed dosbarth, staffio a darpariaeth 14+ yn yr ysgol. Mae drafft Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg Cyngor Pen-y-bont ar Ogwr yn cynnwys targed y bydd 70% o garfan Blwyddyn 11 YGG Llangynwyd yn astudio 2 neu fwy o bynciau ôl-16 drwy gyfrwng y Gymraeg erbyn Medi 2014. Mae targed pellach i gynnal a chynyddu'r 70% erbyn mis Medi 2015.[5] **Bydd y cynigion hyn yn gwneud hynny'n heriol, os nad yn amhosibl**

1. Cefndir

Ym mis Rhagfyr 2013 cychwynnodd Cyngor Sir Bwrdeistref Pen-y-bont ar Ogwr ymgynghoriad cyhoeddus ar gludo disgyblion i'r ysgol. Mae Cynnig 2 yn ymwneud â dileu cludiant 16+ am ddim yn llwyr o fewn yr awdurdod a Chynnig 3 yn ymwneud â chludiant am ddim i ysgolion cyfrwng Cymraeg[6]:

[1] Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Ebrill 2010, t.12 Rhif Dogfen:083/2010
[2] Ibid, Amcan Strategol 1.9, t.14
[3] Ibid, Amcan Strategol 3.1, t.16

[4] Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Cylchlythyr: 021/2010, Gorffennaf 2010
[5] Cynllun y Gymraeg mewn Addysg Cyngor Pen-y-bont ar Ogwr (drafft) 2014-17, t.47
[6] Papur ymgynghori: newidiadau i Bolisi Cludo Dysgwyr y Cyngor
http://www1.bridgend.gov.uk/cy/gwasanaethau/ymgynghori/newidiadau-i-bolisi-cludo-dysgwyr-y-cyngor.aspx

Cynnig Un
Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol: newid i'r lleiafswm o ran pellteroedd statudol

Cynnig Dau
Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol / Coleg: peidio â darparu cludiant i ddysgwyr ôl 16 oed

Cynnig Tri
Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol: peidio â darparu cludiant i Ysgolion Gwirfoddol a Gynorthwyir

Cynnig Pedwar
Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol:Codi tâl am gludiant ôl 16

Cynnig Pump
Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol:Cynyddu cost 'lleoedd talu'

Cynnig Chwech
Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol:Rhesymoli cludiant AAA

Mae'n ymddangos nad yw'r Sir wedi cynnal ymchwil i effaith codi tâl am fysiau ysgol i addysg 16+ ar:

- Addysg Gymraeg
- Teuluoedd ag incwm bach
- Parhau ag addysg 16+ yn gyffredinol.

Mae Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 yn rhoi modd i awdurdodau lleol dalu'n llawn neu'n rhannol am gostau teithio disgyblion lle nad yw teithio'n rhad yn statudol. Rhan o ddyletswydd yr Awdurdod yw darparu cludiant nad yw'n rhoi straen tymor hir diangen ar ddisgyblion, a fyddai'n eu rhwystro rhag manteisio ar yr addysg a ddarperir. Mae adran 2 o'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol asesu anghenion teithio ac i weld patrwm o ddarpariaeth sy'n ymateb i ddewis rhieni am addysg cyfrwng Cymraeg ac i amgylchiadau lleol.[7]

Mae cymal 10 y Mesur yn nodi hyn:

> **Hybu mynediad i addysg a hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg**
> Rhaid i bob awdurdod lleol a Gweinidogion Cymru hybu mynediad i addysg a hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg pan fyddant yn arfer swyddogaethau o dan y Mesur hwn.[8]

Mae Canllawiau Gweithredol ynghylch Teithio gan Ddysgwyr sy'n cyd-fynd â'r Mesur yn nodi 'bydd y ddyletswydd hon hefyd yn berthnasol o dan unrhyw reoliadau y gallai Gweinidogion Cymru eu gwneud o dan adran 7 o'r Mesur am drefniadau teithio i ddysgwyr mewn addysg neu hyfforddiant ôl-16 ac unrhyw reoliadau o dan adran 8 o'r Mesur mewn perthynas â theithio i gael addysg feithrin.'[9]

Ymhellach i hynny mae'r Canllawiau yn nodi pe betai unrhyw newidiadau yn cael eu gwneud i drefniadau teithio i ddysgwyr a'r newidiadau hynny'n lleihau'r nifer sy'n dewis addysg cyfrwng Cymraeg neu yr ymddengys y byddai'n arwain at leihad yn nifer y lleoedd mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg, byddai Gweinidogion Cymru yn barod i ddefnyddio darpariaethau eraill yn y Mesur er mwyn sicrhau bod y sefyllfa yn newid. Byddai Gweinidogion Cymru yn ystyried cyhoeddi cyfarwyddiadau o dan adran 15 petai'n ymddangos bod y newidiadau yn y ddarpariaeth o gludiant i ddysgwyr yn effeithio ar effeithiolrwydd neu

[7] Canllawiau Gweithredol ynghylch Teithio gan Ddysgwyr, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Ebrill 2009, t.16-17
[8] Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008, Llywodraeth Cymru
[9] Ibid, Cymal 2.14, t.17.

ddichonolrwydd ysgol cyfrwng Cymraeg.'[10]

Byddai arferion da o ran y dyletswydd i hybu mynediad i addysg a hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg yn cynnwys:

- ystyried dymuniad y disgyblion a'r rhieni pan fydd awdurdodau lleol yn asesu anghenion teithio dysgwyr o dan adran 2 o'r Mesur.
- Peidio a gweithredu na chynghori mewn unrhyw ffordd a fyddai'n difrio dysgwyr sydd eisiau derbyn addysg neu hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg. [11]

Yn ychwanegol at hynny mae Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol yng Nghymru i baratoi Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg ar gyfer eu hardaloedd. Mae'r Cynllun yn gosod allan cynigion yr awdurdod lleol ar sut y bydd yn gweithredu ei swyddogaethau addysgiadol ar gyfer:

- Gwella'r cynllunio ar gyfer darpariaeth addysg trwy gyfrwng y Gymraeg ("Addysg Cyfrwng Cymraeg") yn ei ardal

Pan yn gosod allan sut y mae hyn yn mynd i gael ei gyflawni, nodir y dylai ALl gymryd teithio gan ddysgwyr i ystyriaeth a'i gorffori i'r cynllun.[12]

Nid oes tystiolaeth fod y Sir wedi rhoi sylw i'r Mesur, yy Canllawiau Gweithredol na gofynion y Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg, wrth lunio'r cynigion hyn, ac ni roddir ystyriaeth ganddynt i sut byddai'r cynnig presennol yn hyrwyddo addysg drwy gyfrwng y Gymraeg.

2. Daearyddiaeth

Mae Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn weddol gryno o'i chymharu â rhai o siroedd Cymru. Mae'r pellter o'r gorllewin i'r dwyrain o gwmpas 12 milltir ac o'r gogledd i'r de tua 18 milltir.

Mae mwyafrif y boblogaeth wedi'i chrynhoi yn ne'r sir ym Mhen-y-bont, Porthcawl a Chorneli.

Mae lleoliad Ysgol Gyfun Gymraeg Llangynwyd yng ngogledd y sir ger Maesteg yn golygu bod yr ysgol yn gymharol bell o gartrefi'r rhan fwyaf o ddisgyblion sy'n ei mynychu. Mae disgyblion yn teithio cryn bellter i ddod i'r ysgol, e.e.

O Blaengarw	8.5 milltir
O Pen-y-bont	9 milltir
O Croeserw	4.5 milltir
O Maesteg	2 milltir
O Nantymoel	10.5 milltir
O Pencoed	10 milltir
O Porthcawl	14 milltir
O Pontycymer	7.5 milltir
O Pîl	12 milltir

[10] Canllawiau Gweithredol Ynghylch Teithio gan Ddysgwyr, Cymal 2.16, t.17
[11] Ibid, Cymal 2.17, t.17-18
[12] Canllawiau arfaethedig ar Ddarpariaethau Statudol a Chanllawiau Gweithredol ar gyfer Teithio gan Ddysgwyr, Llywodraeth Cymru, 12 Ionawr 2014, t.14

3. Dull yr arolwg

Penderfynwyd cynnal holiadur a fyddai'n canfod y canlynol, o ran yr ymatebwyr:

1. Blwyddyn ysgol y disgybl
2. Man byw
3. Pellter bras o'r ysgol
4. Dull cyrraedd yr ysgol
5. Amser teithio i'r ysgol
6. Dymuniad i gael addysg 16+ yn Ysgol Gyfun Gymraeg Llangynwyd
7. Anhawster cyrraedd yr ysgol heb fws ysgol
8. Amser teithio i'r ysgol ar gludiant cyhoeddus
9. Swm ariannol y byddai'r rhiant yn fodlon ei dalu am gludiant i'r ysgol
10. Tebygrwydd mynd i Addysg 16+ yn YGG Llangynwyd pe bai rhaid talu am y cludiant

Gofynnwyd hefyd i rieni gyflwyno unrhyw sylwadau ychwanegol.

Wedi derbyn yr ymatebion, proseswyd yr holiaduron gyda meddalwedd Excel, a oedd yn caniatáu cymharu gwahanol newidynnau â'i gilydd.

Mae'r adroddiad canlynol yn nodi prif ganfyddiadau sy'n deillio o'r holiaduron, gyda sylwadau ychwanegol gan rai rhieni.

4. Ymatebion

Dosbarthwyd yr holiaduron i ryw 560 o rieni disgyblion blynyddoedd 7 i 12 yn Ysgol Gyfun Gymraeg Llangynwyd a gofynnwyd iddynt hefyd ychwanegu eu barn ar y syniad o godi tâl ar gludiant 16+.

Derbyniwyd 257, sef rhyw 45.3% o'r garfan. Barnwyd bod hyn yn ymateb sylweddol, a bod yr ymatebion a gafwyd yn ddilys i'w dadansoddi ac i'w derbyn yn gynrychioliad teg o'r garfan. Mae dosbarthiad lled cyfartal rhwng rhieni, a hefyd o ran ardaloedd byw.

Mae'n anffodus bod yr ymgyghoriad wedi'i gynnal yn ystod gwyliau'r nadolig ac o ganlyniad mae'n bur debygol na fu modd i rai rhieni ymateb oherwydd ymrwymiadau eraill. Mae'n bosibl bod y rhai a ymatebodd, fel sy'n digwydd yn achos holiaduron o'r fath, yn fwy tebygol o ymddiddori yn y pwnc o dan sylw na rhai nad ymatebodd. Gall hyn olygu bod yr ymatebion yn gogwyddo ryw gymaint tua at rai sy'n dymuno parhau mewn addysg Gymraeg 16+, neu at rai sy'n ymddiddori'n gyffredinol mewn addysg Gymraeg. Wedi dweud hynny, mae'r patrymau amlwg a welwyd yn yr ymatebion, a'r ganran uchel a ymatebodd o fewn wythnos o dderbyn yr holiadur, yn dangos bod diddordeb byw yn y pwnc a bod yma ystyriaethau y mae'n rhaid eu hystyried.

5. Man byw a dull cyrraedd yr ysgol

Roedd yr ymatebwyr yn byw yn y mannau hyn:

Pen-y-bont	21.5 %
Corneli ac ardal Pîl	12 %
Cwm Garw	14 %
Maesteg	27 %
Gogledd Pen-y-bont	14 %
Cwm Ogwr	1.5 %
Pencoed	4 %
Porthcawl	6 %

Yn sgil pellter cartrefi o'r ysgol, mae cludiant i'r ysgol trwy fws am ddim yn hanfodol i barhad yr ysgol. Mae 2% o'r disgyblion yn cerdded, 3.5% yn dod mewn car, 0.5% gyda chludiant cyhoeddus a 94% yn dod mewn bws ysgol.

6. Pellter o'r ysgol

Cafwyd bod 60% o'r disgyblion yn byw ymhellach na 5 milltir o'r ysgol. O blith y gweddill roedd 3% yn byw o fewn milltir, 5% yn byw rhwng 1 a 2 milltir o'r ysgol, sef y pellter sy'n eithrio disgyblion rhag bod yn gymwys am gludiant ysgol dan y canllawiau presennol. Roedd 14% arall yn byw rhwng 2 a 3 milltir o'r ysgol, sef y disgyblion fyddai'n cael eu heffeithio gan Gynnig 1 yr ymgynghoriad hwn.

Roedd 18% o ddisgyblion yn byw rhwng 3 a 5 milltir o'r ysgol. Roedd mwy na tri chwarter y disgyblion yn byw mwy na 3 milltir o'r ysgol.

Mae'r patrymau pellter yn wahanol iawn i batrymau'r Sir yn gyffredinol, lle mae mwyafrif helaeth disgyblion ysgolion Saesneg yn byw o fewn 3 milltir i'w hysgol gyfun agosaf.

Er mwyn sicrhau bod mynediad i addysg Gymraeg mor hwylus â mynediad i addysg Saesneg, mae angen i'r ddarpariaeth gludiant fod ar gael yn hwylus.

Graff 1 Pellter disgyblion o'r ysgol



7. Amser teithio i'r ysgol

Mae 62% o'r disgyblion yn cymryd hanner awr neu lai i deithio i'r ysgol. Mae 35% yn cymryd rhwng hanner awr a thri chwarter awr, 3% yn cymryd rhwng tri chwarter awr ac awr. Mae'r amserau teithio hir hyn, yn sgil lleoliad yr ysgol, yn golygu bod straen teithio parhaus ar y rhan fwyaf o ddisgyblion, er gwaethaf dymuniadau statudol na ddylai teithio i'r ysgol osod straen ar fyfyrwyr.

Graff 2 Amser teithio i'r ysgol



Mae pellter o'r ysgolion yn dylanwadu ar yr amser cyrraedd. Gwelwyd bod y mwyafrif helaeth yn byw ymhellach na 3 milltir o'r ysgol, ac yn cymryd mwy na hanner awr i gyrraedd yr ysgol. Mae darpariaeth bws ysgol am ddim yn lliniaru ar yr amser teithio, fel y gwelir yn nes ymlaen, pan ofynnwyd am amser teithio gyda chludiant cyhoeddus. Mae bodolaeth cludiant am ddim yn gwneud iawn i raddau ar hyn o bryd am bellter disgyblion o'r ysgol.

Graff 3 Dulliau cyrraedd yr ysgol



8. Am gael addysg Gymraeg 16+

Cafwyd ymateb cadarnhaol iawn i'r cwestiwn yn holi am ddymuniad i gael addysg Gymraeg 16+. Roedd 60% yn bendant am ddychwelyd i Langynwyd a 38% pellach yn dweud y byddai'n debygol y byddent am gael addysg Gymraeg. Mae'n anodd cymharu'r ffigyrau hyn i batrymau galw'r gorffennol am addysg 16+ yn Ysgol Gyfun Gymraeg Llangynwyd gan mai ym Medi 2013 agorwyd y 6ed dosbarth.

Graff 4 Dymuniad i gael addysg 16+ yn Ysgol Gyfun Gymraeg Langynwyd



Fel y gwelir yn nes ymlaen, bydd y patrwm cadarnhaol hwn yn cael ei chwalu wrth godi tâl am gludiant ysgol.

Gwelwyd, fodd bynnag, beth cydberthyniad rhwng byw'n agos at yr ysgol a'r dymuniad i barhau ag addysg 16+ yno.

Roedd 66% o rieni yn bendant am i'w plant ddychwelyd i'r 6ed dosbarth yn Llangynwyd. Roedd hyn yn disgyn i 30% pe byddai rhaid talu am y cludiant. Roedd 18% o'r rhain yn ymrwymedig i addysg Gymraeg serch y gost a'r straen fyddai ynghlwm â hynny. Er hynny, byddai niferoedd cyn lleied â hynny yn rhoi dyfodol 6ed dosbarth Llangynwyd yn y fantol, ac o ganlyniad fyddai'n golygu diwedd ar ddarpariaeth 16+ cyfrwng Cymraeg yn yr awdurdod. Sgil effaith hynny yw na fyddai rhieni yn dewis anfon eu plant i ysgolion cynradd yn y lle cyntaf.

9. Cyrraedd yr ysgol heb fws ysgol

Er mwyn ceisio canfod pa mor ddibynnol yw'r ysgol ar gludiant bysiau ysgol, gofynnwyd i'r rhieni pa mor hawdd fyddai hi i'r disgyblion gyrraedd yr ysgol heb fws ysgol.

Roedd y ganran fwyaf, 42%, yn dweud y byddai'n amhosibl. Byddai'n anodd i 43%, ac yn hawdd neu'n eitha hawdd i 4%.

Mae Ysgol Gyfun Gymraeg Llangynwyd, yn wahanol i'r rhan fwyaf o ysgolion Pen-y-bont ar Ogwr, yn dibynnu'n llwyr ar y gwasanaeth bysiau ysgol. Byddai gwanhau'r ddarpariaeth honno'n rhwym o wanhau'r ysgol.

Graff 5 Hwylustod cyrraedd yr ysgol heb fws ysgol



10. Amser cyrraedd yr ysgol ar gludiant cyhoeddus

Holwyd am amserau cyrraedd yr ysgol ar gludiant cyhoeddus. Meddai 42% nad oedd yn bosibl i'r disgyblion gyrraedd â chludiant cyhoeddus. Byddai cludiant cyhoeddus yn cymryd mwy nag 1½ awr i 20% o'r disgyblion a mwy nag awr i 29% arall.

Roedd yn glir bod gwasanaeth cludiant cyhoeddus i Langynwyd yn anhwylus iawn ac na fyddai dibynnu ar gludiant cyhoeddus, fel y gall Coleg Pen-y-bont ei wneud, yn ymarferol nac yn bosibl.

Byddai mwy na hanner y disgyblion yn treulio mwy na 2 awr y dydd yn teithio pe baent yn defnyddio cludiant cyhoeddus. Mae hyn yn cymharu'n anffafriol iawn â'r hyn a ddywedir gan Goleg Pen-y-bont am gludiant cyhoeddus i'r coleg hwnnw

Graff 6 Amser teithio i'r ysgol gyda chludiant cyhoeddus



11. Parodrwydd i dalu

Roedd yn glir bod gofyn i rieni dalu am addysg 16+, ar ôl cludiant am ddim, dros y blynyddoedd diwethaf, yn cael adwaith negyddol iawn gan rieni. Gofynnwyd am barodrwydd i dalu symiau eraill, gan gynnwys £1.50 y diwrnod, £1 y diwrnod a llai na £1 y diwrnod.

Meddai 71% na fyddent yn barod talu dim. Roedd 13% yn fodlon talu £1 neu lai y diwrnod. Dim ond 1.5% o rieni oedd yn fodlon talu'r gost llawn a 2.7% yn barod i dalu £1.50 y diwrnod.

Gall y Sir ei hun drafod i ba raddau mae gofyn am swm sylweddol o arian gan rieni, ar ôl i'r Sir ddarparu'r gwasanaeth am ddim o'r cychwyn, wedi cael adwaith negyddol y gellid bod wedi ei osgoi o gyflwyno hyn yn fwy graddol. Mae ymateb chwyrn rhieni i'r syniad yn glir, gydag yn agos at 7 o bob 10 yn gwrthod talu.

Graff 7 Parodrwydd i dalu am gludiant i addysg 16+



12. Dymuniad i gael addysg Gymraeg 16+ a thalu am fws ysgol

Yn wyneb yr arian y byddai'n rhaid ei dalu i fynychu addysg Gymraeg 16+, roedd y dymuniad i barhau gydag addysg Gymraeg yn lleihau'n ddirfawr.

Mae gostyngiad amlwg i'w weld o gymharu hyn â'r galw presennol am addysg Gymraeg 16+. Mae'r ganran sy'n bendant am gael addysg o'r fath wedi newid o 60% i 27%. Mae'n ymddangos y byddai'n dasg anodd cynnal darpariaeth Gymraeg hyfyw 16+ yn Ysgol Gyfun Gymraeg Llangynwyd heb gludiant ysgol am ddim.

Graff 8 Dymuniad i barhau ag addysg Gymraeg 16+ a thalu am fws ysgol



Wrth gymharu'r rhai sydd ag awydd cael addysg 16+ yn Llangynwyd, a'r newid yn y dymuniad hwn pe bai rhaid talu, ceir bod 60% a oedd gynt yn bendant yn awr yn disgyn yn sylweddol i 27%, gyda gostyngiad pellach o 26% i 12% arall yn fwy na thebyg o ddal i eisiau cael addysg Gymraeg.

Felly ni fyddai 47% o'r disgyblion fyddai ynghynt wedi parhau mewn addysg Gymraeg 16+ bellach yn gwneud hynny pe byddai'r Cyngor yn codi tâl ar gludiant i'r ysgol.

13. Sefydliadau addysg Saesneg 16+ a sefydliadau eraill

Mae gan Goleg Pen-y-bont ganolfannau dysgu sydd yng nghanol crynodiadau poblogaeth, ym Mhen-y-bont, Maesteg a Phencoed.

Yn wahanol iawn i Goleg Pen-y-bont, ac i ysgolion y Sir yn gyffredinol, mae rhyw 78% o ddisgyblion Ysgol Gyfun Gymraeg Llangynwyd yn byw ymhellach na 3 milltir o'r ysgol.

Yn wahanol i Goleg Pen-y-bont, nid oes gwasanaeth bysiau cyhoeddus hwylus i Ysgol Gyfun Gymraeg Llangynwyd, felly mae'r mwyafrif helaeth o'r disgyblion yn dibynnu ar fysiau ysgol a ddarperir gan y Sir.

Mae Bro Morgannwg ar hyn o bryd yn darparu cludiant i'r ysgol am ddim ar gyfer disgyblion ôl-16 sy'n byw tu hwnt i'r pellter cerdded statudol o dros 3 milltir ac mae'n ffurfio rhan o bolisi'r awdurdod i ddarparu cludiant am ddim.

Mae disgyblion yn RhCT sy'n bodloni'r maen prawf o fyw dros 2 filltir o'r darparwr ac sy'n cofrestru ar gyfer cyrsiau astudio cymeradwy hefyd yn gymwys i gael cludiant am ddim ar hyn o bryd.

Mae'n hawdd rhagweld y bydd cludiant o'r fath ar gael i fyfyrwyr sy'n byw mewn ardaloedd penodol o Ben-y-bont ar Ogwr, ac efallai yn arwain o bosib at fwy o fyfyrwyr y Sir yn cael mynediad i ddarpariaeth mewn ALlau eraill.

14. Sylwadau rhieni ac amddifadedd cymdeithasol

Mae ymateb y rhieni'n ymwneud â 5 prif thema:

1. mae pellter Llangynwyd yn ei gwneud hi'n anodd i ddisgyblion gyrraedd.
2. bydd addysg Gymraeg yn dioddef, o'i chymharu ag addysg Saesneg.
3. gofid am gosbi rhieni sydd â llai o fodd.
4. pryderon hefyd nad yw'r sir yn hyrwyddo addysg 16+ trwy fynnu tâl am gludiant.
5. Diogelwch

Mae'r rhieni'n sôn am eu hanawsterau personol i dalu am fws, yng nghefndir y dirwasgiad economaidd presennol. Nid yw'r rhieni hyn o reidrwydd yn ddi-waith, ond yn rhai ar incwm cymharol isel a byddai tâl ychwanegol, lle mae posibiliadau rhatach ar gael, yn peri na fyddan nhw'n gallu anfon eu plant i Langynwyd.

Mae'r rhieni'n ymwybodol iawn o effaith hyn ar y Gymraeg, a hefyd ar hyrwyddo addysg yn gyffredinol.

Mae sylwadau'r rhieni'n ymwneud â'r hyn a ystyrir yn amddifadedd cymdeithasol. Mae hyn yn cynnwys amddifadedd incwm, ond mae hefyd yn ymwneud ag amddifadedd o ran gwaith, iechyd ac addysg. Mae byw ymhell o gyfleusterau addysg yn un ffactor wrth fesur amddifadedd cymdeithasol. Mae'n ymddangos nad yw'r Sir wedi ystyried y ffactorau hyn wrth gynnig codi tâl am gludiant i addysg. Mae modd rhagweld y bydd y cynllun sydd gerbron yn cynyddu amddifadedd cymdeithasol yn ardaloedd pellennig y sir, yn enwedig ymysg rhai yr ystyrir eu bod eisoes yn dioddef o amddifadedd incwm a gwaith.

Fe welir sylwadau'r rhieni yn Atodiad A.

ATODIAD A

SYLWADAU RHIENI

Mae'r sylwadau yn ymddangos fel y gwreiddiol.

Ble mae rhieni wedi enwi eu plant nodwyd gyda 'fy mhlentyn' er mwyn sicrhau anhysbysrwydd y teuluoedd.

Anawsterau pellter

With two children & working, transport would affect my job and the children's education as they attend two different Welsh schools & I work in a school nowhere near them. There is no feasable way of getting my child to school on time.

Work commitments would not allow me to take my child to school or collect them on time.

I fear that the children will be less enthusiastic about going to school, I think there will be more truancy and poor puncuality. I also feel there could be added pressure for working with parents to take and collect their children.

As a single parent I will find this almost impossible to cater for.

Removal of free bus transport would affect furthering my child's education as he would be unable to go to school due to transport.

A child that wants to continue in the Sixth form should not have to worry about catching buses to school, especially public buses which in our area are only run every other hour, so my son would have to travel to Bridgend to get a connection to his school.

Public transport infrastructure is insufficient to be an option. Parent work full time / shift work (no local relatives to support transport). The travel to school is a social event for the children.

Due to my shift pattern I would be unable to take my child to school in the car.

Rwy'n credu byddai gwaredu cludiant i'r ysgol. Mae llawer o rhieni yn gweithio neu heb gar a byddent yn cael hi'n anodd i ddanfon eu plant i Ysgol Llangynwyd.

Due to my shift patterms I would be unable to take my child to school in the car.

I would have had to to consider another school as grandparents used to beable to help but cannot anymore due to health. I would have considered changing schools while she was younger.

Anfanteisio addysg Gymraeg

Anghytuno yn gryf â'r awgrym; byddai newidiadau o'r fath nid yn unig yn cael argraff negyddol ar addysg fy mhlentyn ond hefyd ar addysg Gymraeg yn y sir. Mae'r cynllun yn cosbi disgyblion sydd am barhau â'u haddysg ôl 16 ac yn arbennig yn cosbi disgyblion sydd am gael addysg Gymraeg.

There's always been free school bus to our local area secondary schools. If this is going to change then council should have built a Welsh secondary school for locals in Cornelly / Porthcawl then there would be no need for a bus.

Does dim ysgol cyfrwng Cymraeg ar gael yn Mhorthcawl. Mae codi tâl ar fysiau ysgol fel treth ar addysg Gymraeg. Yr unig ysgol o fewn 2 filltir yw ysgol breifat!

We live in Wales, therefore pupils should be encouraged and funded to travel to the only Welsh-medium school in the area. It is their right to keep the Welsh Language alive and your duty to help them as a 'Welsh' Council!

Removal of free school buses would force us to withdraw our children from Welsh-medium education. We consider this to be unfair and discriminatory.

Why should parents pay for transport to get their children the education they deserve!!

Llangynwyd is the closest Welsh school to North Cornelly and I would feel let down that I would have to pay for transport when if he were to attend an English school buses are free.

My daughter should be able to receive Welsh Medium Education. Build a Welsh School closer and then there is no issue!

Sorry but I am not willing to pay for school transport to Ysgol Gyfun Gymraeg Llangynwyd. Transport should be provided to every child in full time education.

As this is the only Welsh comprehensive school in the Bridgend borough it should have free transport – we did not ask for it to be built in Maesteg. Most of the children live in Bridgend.

Os nad oes cludiant ar gyfer addysg 16+, bydd angen ystyried yn ofalus ydy YGG Llangynwyd yn cynnig yr addysg / dewis pynciau gorau.

If either of these proposals is implemented, I believe Welsh Medium Education in the borough is finished, as only children in the Maesteg area will be able to attend the school without incurring unacceptable costs!

We should encourage our children to remain in a Welsh medium education school.

It will be a shame to transfer my child to an English speaking school after he's learnt all his education through the medium of Welsh.

Dylai'r Cyngor warchod addysg plant a dyfodol y Gymraeg.

Ni fyddaf yn fodlon i dalu am drafnidiaeth gan taw nid mater o ddewis yw hi i anfon fy mhlentyn i ysgoli ffwrdd o ble i ni'n byw. Ar egwyddor dyle fod yr hawl gan blentyn i addysg Gymraeg. Bai yr awdurdod leol yw hi fod yna ddim ysgol Gyfun Gymraeg yn agosach i'n cartref- fel y dyle fod!

Mae newid pellter minimwm i'r ysgol ar gyfer trafnidiaeth yn debygol o effeithio nifer o blant fydd yn mynych ysgolion Cymraeg Cynradd – ac fydd yn debygol o effeithio'r nifer o blant fydd yn mynychu Llangynwyd.

YGG Llangynwyd is the closest Welsh Comprehensive and for BCBC to start charging for the bus is to deny some children a secondary Welsh education.

I feel this proposal will make many parents think again before choosing to send their children to Llangynwyd as its location is not as easy to reach as local English language schools.

The removal of sixth form transport will affect whether pupils continue in the Welsh medium, may also sway parents away from Welsh medium education all together. It needs to be realise that the charging for places will likely affect more than one child per family, in my case for at least one year potential for charge for 2 children in 6th form.

Any changes should be done with full support of the community. Maling such changes would in the long term be detrimental to keeping the Welsh language alive. Families living out of the area are at present choosing Welsh language education. Making changes to the transport would take this choice away. The financial implications would be massive and impact all families but having more than 1 child in the school would make the whole sitatuon financially impossible.

It is not my son's fault there is a lack of secondary education schools teaching in the Welsh language and I don't see why he should be penalised for choosing a Welsh language post 16 education.

We should be encouraging our children to remain in school to gain a good education through the medium of Welsh.

I feel that in the longer term that charging for transport will bea disincentive for parents to enter their children into Welsh medium education system as there will always be some travel involved.

Being educated in Welsh is important to our children as these proposed changes could result in many children being denied this option which could have a detrimental impact on them progressing to further education. While I would do everything possible to ensure my 2 children could continue their education in the Welsh medium, it would be almost impossible to transport them to school as both parents are working. I would be disappointed to see this implemented.

I believe that many parents would avoid sending their children to complete their 6th form education through the medium of Welsh as there will be cheaper options with more direct routes in English

schools/college. This will have a dramatic effect on the Welsh education provided by the borough that the new comprehensive was opened to provide!

I appreciate that post 16 transport is discretionary and the council is in a difficult position, but if parents have to contribute towards the cost of transport then they must be guaranteed a place on a bus, and not be subject to space / capacity. If no bus service at all is offered to post 16 then I think the vast majoirty of students would attend English medium schools.

Nid wyf yn cytuno â'r awgrym i waredu trafnidiaeth y mae'n bwysig i bob plentyn gael yr un cyfle i fanteisio ar addysg Gymraeg.

This would be against his human rights as he's been learning Welsh first language since being a toddler.

Yn yr amgylchfyd arianol mae'n bwysig i bobl ifanc derbyn yr addysg gorau er mwyn fod yn llwyddianus, felly ma'n bwysig fod yr addysg ar gael i bawb.

I do not feel the consultation process has given the parents enough opportunity to express concerns and the decision by the Council to charge for transport has already been made. Parents have fought hard to get a Welsh Medium Education at secondary level and this process will affect pupil numbers at the school.

Making parents pay for transport to Welsh schools i not going to encourage the continuation of the language.

Luckily I am in a position to be able to afford these costs. Please recognise that it will be of considerable difficulty for many families, and if we lose a lot of children due to bus fare costs, the future of Welsh medium education in Bridgend is at risk.

It would beimpossible for my children to continue there education at the school they currently attend due to transport and money. I would be very dissapointed if this was the case as there are no Welsh medium schools in our area for my child to attend so would have to go to a English school losing out on her heritage.

Effaith ar y llai cefnog

BCBC are encouraging 16+ education, they need to help the young adults get to the chosen school/college and not deplete family funds.

There is **no** money left over to pay for it. I struggle to heat the house and put food on the table.

It would be impossible to take our daughter to school as we both work in our house and due to the current financial position would find it a great struggle to pay for public transport.

If sixth form transport is removed, this may cause families on lower income problems, and may not be able to send their children for further education which is very unfair.

My family has one car which my partner uses for work. My partner is also an electrical contractor / self employed when he is out of work as I am on a low wage and the cost of living is so high we have little or no extra money. Therefore the cost of transport for post 16 education would need a serious discussion based on our own circumstances. I would love nothing more than for my daughter to continue her education and through the medium of Welsh but if cost was too high I would need to consider moving her to a local English comprehensive.

Any additional costs for school transport would be virtually impossible and create more debt. Single mum to 3 children already financially. This is worrying and depressing.

I think it is wrong to charge sixth form pupils to get too school. Parents should not be penalised for their children carrying on with their education.

As a single parent with a chronic illness not receiving any assistance this would affect my finances to the extent that I'd have to look for an alternative local English school for my child to locate to which would be a shame as he is thiving at Llangynwyd.

Has thought been given to families with 3 children or more on school transport, the cost could become prohibitive and a change of school could be necessary in some cases.

It is not just the cost but the inconvenience / inaccessability of public transport.

We pay enough in Council Tax – approx 10% increase this year to cover free school transport to all pupils living over 3 miles away from school. Sixth formers and all pupils should be treated the same.

I am being made redundant in April 2014.

I feel that charging parent for their children's transportwould put undue strain on household budgets for working parents who would not get additional support from the council or government.

Do not want to see removal of free transport. The families on low incomes will be less likely to be able to financially provide extra money for the bus.

I think 6th form pupils have the right to free transport. We want to encourage our children to further their education and feel charging for bus transport only adds to extra costs, where many many families want to do the best for their children & provide extra books with extra costs etc. Being charged to pay for transport may 'discourage' disadvantaged families with children who have excellent abilities to further their education and better themselves furthermore!

I feel that charging parents for their children's transport would put undue strain on household budgets working parents who would not get additional support from the council or government.

Would not like the removal of free transport. Many parens are not in a position to financially find the additional costs.

I am against the proposal as like many families we are on low income but not classed low enough for additional support and to have to pay would most likely mean moving our children in the future. We chose a Welsh school due to their excellent reputation, so the boys learnt about their heritage and language NOT for free transport and to loose that because of financial implecations and the disrution it would cause to their education is unfair.

'Disgusted'. As a single mother I do not qualify for EMA. EMA should be per child NOT by adult. Our househol has one income. No benefits, maintenance, tax credits – I'm frankly appalled at the suggestion!!

Gwneud drwg i addysg

I think the number of pupils attending the school will go down.

Are they trying to stop children going intothe sixth form to save money everyway? I think it's terrible if this happens.

It will deter parents from encouraging pupils to stay on in the 6th form due to costs. Children would end up going to local schools instead of being educated in Welsh. It would be very expensive if you hav more than one child plus would there be a charge for pupils on free meals?

The proposal would discourage some to contune with their education. In an area where jobs are difficult to obtain this would increase the problem.

The above proposal would put off some pupils from staying on un full-time education.

I think that charging for 6th form transport will have a detrimental efffect on the number of pupils staying at Llangynwyd to complete AS/A Level courses.

Think it's absolutely wrong to charge. Promoting children to stay on in school as there is no jobs and then trying to charge for their transport.

We are meant to be promoting students to stay in 6th form, which this isn't!

The removal / charging for 6th form pupils is likely to affect pupil numbers in 6th form and possibly those starting in Year 7. It is not necessarily the time of travel by public transport,but the time of leaving home and return to home which is more telling as public transport may not coincide with school times.

I feel these changes will adversely affect 6th form & Welsh language education. It is wrong that less affluent families will not be able to afford their preferred education.

I feel these changes will adversely affect 6th form & Welsh language education. It is wrong that less affluent families will not be able to afford their preferred education.

The age of a sixth form student shouldbe irrelevant to the cost of a bus which is already scheduled to journey to the school anyway. Why penalise a student whom wishes to progress in education?

I think all school transport should be free for all school children and children staying on for 6th form should NOT be charged. Times are hard enough, why penalise children wanting to learn? We pay council tax, cuts should be made another way NOT through education at all.

Diogelwch

When my children are 16 I think they are old enough and resposnible to catch public transport. Before 16 I would be concerned for their safety as it is often dark when they catch school transport. Having said that, if they had to catch a public bus they would leave the house earlier still and it would be much too dangerous.

I think school buses should be provided to all school children regardless of age. If my son walks there is no walkway in some places and it is a very busy road. I'm sure the council can find other ways to make money.

Does the council want every parent to pay, or is this extra cost just for working parents? I am absolutely appalled at this proposal. We live in a small village, the only access to school would be through narrow lanes that have no pavements and porr lighting. Would my child's safety be

guaranteed, as she would have to walk to school. I am in work and I would not be able to afford to pay for school transport.

We just feel it is a child's right to get transport to and from school, for safety and help for a deprived area. It encourages consistency to attend school.

I don't think any child should have to walk to school within a 2 mile distance.It means they have to leave very early and in wet weather. If I lived 20 houses further up my road my child would be entitled to a free bus.

I understand BCBC needs cut backs and need to save money but transport should be provided for our children. It's important that children are safe getting to and from school.

As a single parents on benefitsI would find it impossible to fund public transport. The distance to walk is too great and would be potentially dangerous.

We should not have to pay for our children to attend school as education is very important and parents shouldn't have to worry about if their child has got to school safely.

It would be a lot harder to organise my child to get to school on time. Due to the area we live in she would have to walk for 15 minutes to get to the bus stop and could be bullied or beaten up. I would not feel happy for the safety of my child.

Ffynonellau

Gwaith ymchwil:
Holiaduron i rieni blynyddoedd 7 - 12 Ysgol Gyfun Gymraeg Llangynwyd

Cyhoeddedig:
Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008, Llywodraeth Cymru.

Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Ebrill 2010, Rhif Dogfen: 083/2010

Canllawiau Gweithredol ynghylch Teithio gan Ddysgwyr, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Ebrill 2009

Canllawiau arfaethedig ar Ddarpariaethau Statudol a Chanllawiau Gweithredol ar gyfer Teithio gan Ddysgwyr, Llywodraeth Cymru, 12 Ionawr 2014

Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Cylchlythyr: 021/2010, Gorffennaf 2010

Papur ymgynghori: newidiadau i Bolisi Cludo Dysgwyr y Cyngor
http://www1.bridgend.gov.uk/services/consultation/changes-to-the-councils-learner-transport-policy.aspx

Cynllun Strategol y Gymraeg Mewn Addysg (drafft) Pen-y-bont ar Ogwr 2014-17
http://www1.bridgend.gov.uk/services/consultation/current-consultations/wesp.aspx

Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013, Llywodraeth Cymru, Mawrth 2013

Llun: Ysgol Gyfun Gymraeg Llangynwyd